# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (231)

**Dyddiad: Dydd Mercher 24 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

..........................................

### 14.09
### Eitem 2: Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 5 a 6 eu grwpio.

..........................................

### 14.59
### Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog

**NDM4599 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 3 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

..........................................

**14.59**
**Eitem 3: Cynnig i gymeradwyo gwelliant i Reol Sefydlog dros dro 27.9A ynghylch amserlen y gyllideb flynyddol**

**NDM4600 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 35.2:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2010; a

2. yn cymeradwyo’r newid i Reol Sefydlog 27A.9 a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**........................................**

**15.00**

## Eitem 4: Dadl Cyfnod 1 ar Fesur arfaethedig Ann Jones, sef Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

**NDM4597 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:

Yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Cafodd Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol eu gosod gerbron y Cynulliad ar 8 Gorffennaf 2010;

Cafodd adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ar Fesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) ei osod gerbron y Cynulliad ar 12 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**15.50**

## Penderfyniad Ariannol

**NDM4598 Jane Hutt (Vale of Glamorgan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii)(c), sy’n codi o ganlyniad i’r Mesur.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**........................................**

**15.50**

## Eitem 5: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ‘Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru’

**NDM4596 Helen Mary Jones (Llanelli)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Hydref 2009.

Noder: Gosodwyd ymateb y Dirprwy Weinidog dros Blant i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.........................................**

**16.30**
**Eitem 6: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4595 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r anesmwythyd ymysg y cyhoedd ynghylch diffyg atebolrwydd yng nghyswllt rhedeg GIG Cymru; ac

2. Yn galw am fwy o dryloywder i godi safonau'r GIG.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **16** | **0** | **30** | **46** |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**.........................................**

**17.31**
**Cyfnod Pleidleisio**

**.........................................**

**17.32**
**Eitem 7: Dadl Fer**

**NDM4594 Helen Mary Jones (Llanelli):**

Yr Hawl i Chwarae

**.........................................**

**17.45**
**Eitem 8: Dadl fer wedi'i gohirio ers 3 Tachwedd 2010**

**NDM4568 Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Amddiffyn Gwasanaethau Iechyd Gwledig

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.08.**

**........................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**